# Enw

07123456789 | insertemail@hotmail.com | LinkedIn


Myfyriwr Optometreg ail flwyddyn trefnus ac ymroddgar gyda sgiliau clinigol a gofal cleifion rhagorol wedi eu datblygu mewn lleoliadau gwaith, drwy gysgodi yn yr ysbyty a phrofiad mewn meddygfa brysur. Gobeithio gwella gwybodaeth glinigol ac ymwybyddiaeth fasnachol yn gynorthwyydd optegol rhan-amser mewn practis prysur ar y stryd fawr.

## ADDYSG

**MOptom Optometreg,** *Prifysgol Caerdydd* Medi 2023 – Presennol

- Gradd a ragwelir 2:1
- Dysgu am agweddau ac ymddygiad darpar weithiwr iechyd proffesiynol sy'n paratoi ar gyfer ymarfer diogel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd yn ei dro, yn canolbwyntio ar anghenion y claf, y gymdeithas a lleoliadau gofal iechyd ehangach. Dysgu hefyd sut mae ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wraidd dull cyflwyno gofal iechyd.
- Y gallu i ddadansoddi a gwerthuso'r symptomau a gyflwynir a'r arwyddion clinigol mewn amrywiaeth o gleifion. Dewis a chyflawni'r profion clinigol mwyaf addas ar gyfer ymchwiliad pellach o glaf sydd â lensys cyffwrdd a chynnig cynlluniau rheoli sylfaenol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

**Safon Uwch**, C*hweched dosbarth Shelton, Dyfnaint*
2020 – 2022
Bioleg (A), Hanes (A), Ffiseg (B), Safon UG Mathemateg (C)

**TGAU**, Y*sgol St George*, *Dyfnaint* 2018 – 2020
9 A– B gan gynnwys Bioleg, Ffiseg, Cemeg, Saesneg, Mathemateg

## SGILIAU CLINIGOL

**Asesiadau clinigol a phrofion llygaid**

- Datblygu hyfedredd wrth gynnal profion llygaid a defnyddio offerynnau a thechnegau clinigol sy'n cael eu defnyddio yn y lleoliad gofal sylfaenol ar gyfer asesu'r golwg, iechyd ocwlar a statws binocwlar sylfaenol.
- Yn fedrus wrth ddehongli canfyddiadau profion llygaid, gan gynnwys biomicrosgopeg lamp hollt a ffwndosgopi, i nodi annormaleddau ocwlar, gwneud diagnosis o gyflyrau llygaid, a datblygu cynlluniau rheoli priodol.

**Cyfathrebu, gwrando'n weithredol a sgiliau pobl**

- Cyfleu gwybodaeth dechnegol gymhleth yn glir ac yn effeithiol yng nghlinig llygaid y brifysgol, gan sicrhau bod cleifion yn deall statws eu hiechyd llygaid yn llawn yn ogystal â'r dewisiadau o ran triniaeth a'r cynlluniau gofal a argymhellir.
- Dangos empathi a dealltwriaeth wrth ryngweithio â chleifion, cydweithwyr ac aelodau tîm, gan greu awyrgylch cefnogol a chynhwysol sy'n gydnaws â'r gofal cleifion a'r datblygiad proffesiynol gorau posibl. Er enghraifft, wrth drafod opsiynau triniaeth â chlaf sy'n colli golwg, cymryd amser i drafod ei emosiynau a thawelu ei feddwl.
- Gwrando'n astud ar gleifion yn ystod ymgynghoriadau, gan aralleirio eu pryderon i gadarnhau dealltwriaeth a defnyddio ymatebion myfyriol i ddangos empathi.

**Gweithio dan bwysau**

- Wedi datblygu gwydnwch a hyder wrth weithio mewn awyrgylch brysur mewn meddygfa yn ystod blwyddyn allan. Wedi ymdrin â chleientiaid gofidus a blin yn aml, a delio â sefyllfaoedd brys gan ddangos pwyll ac ymateb yn broffesiynol i ystod eang o sefyllfaoedd.

**Y gallu i weithio'n rhan o dîm**

- Gallu gweithio'n agos ag eraill fel optometrydd sy’n fyfyriwr, gan weithio ar y cyd gydag eraill a thrafod ag optometryddion mwy profiadol i sicrhau bod y camau gweithredu mwyaf priodol yn cael eu rhoi ar waith.
- Sylweddolais pa mor bwysig yw gwaith tîm a thimau amlddisgyblaethol mewn gweithle gofal iechyd, tra’n gweithio fel derbynnydd mewn meddygfa, gan roi cymorth i gynorthwywyr gofal iechyd, meddygon teulu, nyrsys, meddygon cyswllt a staff eraill y practis i roi gofal rhagorol i’r claf.

## PROFIAD CLINIGOL

**Optometrydd sy’n fyfyriwr**, *Prifysgol Caerdydd* Hydref 2024 – Presennol

- Cymryd rhan mewn clinigau wythnosol yng nghlinig llygaid y brifysgol sy’n agored i’r cyhoedd gan gynnal asesiadau cleifion cynhwysfawr o dan oruchwyliaeth optometryddion profiadol.
- Helpu i gyflawni sgrinio iechyd ocwlar, gan gynnwys defnyddio lamp hollt i gynnal profion, delweddu’r retina a thonometreg i ganfod cyflyrau llygaid cyffredin gan gynnwys llygaid sych, cataractau a glawcoma.
- Cael profiad yn gosod ac yn addasu lensys cywirol, gan gynnwys sbectolau a lensys cyffwrdd, a dysgu cleifion sut i ofalu am a defnyddio eu lensys.
- Cyfrannu at fentrau addysgu cleifion y clinig, gan gynnig cyngor ar gynnal a chadw’r llygaid a chyngor maeth ar gyfer gofal y llygaid, a sut i warchod y llygaid oddi wrth effeithiau uwchfioled.
- Cadw cofnodion cywir a chyfrinachol ynghylch y cleifion, gan wneud yn siŵr bod y cleifion yn cael profiad didrafferth ac o safon.

**Lleoliad gwaith y radd***, Specsavers, Caerdydd*
Tachwedd 2024

- Lleoliad cwrs wythnos o hyd mewn cangen leol Specsavers. Profiad ymarferol ym maes optometreg mewn awyrgylch manwerthu prysur.
- Helpu optometryddion i asesu cleifion, gan gynnwys profion craffter gweledol a phlygiant.
- Arsylwi ymgynghoriadau gyda chleifion, gan ddysgu sut mae optometryddion yn cynnal profion llygaid, dehongli’r canlyniadau, a chynnig argymhellion ar gyfer lensys cyffwrdd a rheoli iechyd y llygaid.
- Rhoi cymorth i’r tîm blaen tŷ i gadarnhau presenoldeb cleifion, trefnu apwyntiadau ac o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, gan wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio’n effeithlon ac yn ddidrafferth.
- Dysgu am agweddau manwerthu optometreg, gan gynnwys rheoli stoc, dewis lensys, a phwysigrwydd gofal cwsmeriaid wrth roi dewis o sbectolau wedi’u personoli.

**Cysgodi Offthalmolegydd** *Ysbyty Dyfnaint GIG Lloegr, Dyfnaint* Gorffennaf 2024

- Lleoliad gwaith 3 diwrnod yn cysgodi offthalmolegydd mewn ysbyty lleol y GIG.
- Wedi arsylwi offthalmolegydd yn gwneud diagnosis ac yn rheoli ystod eang o gyflyrau ocwlar, gan gynnwys cataractau, glawcoma, a dirywiad macwlaidd, o dan oruchwyliaeth offthalmolegydd profiadol.
- Dysgu am weithdrefnau llawfeddygol, gan gynnwys llawdriniaeth cataractau a thriniaethau laser, arsylwi asesiadau cyn llawdriniaeth, gofal yn ystod llawdriniaeth, a gofal ôl-driniaethol.
- Gwella gwybodaeth am y berthynas rhwng optometreg ac offthalmoleg, gan ehangu dealltwriaeth o sut mae’r broses cyfeirio’n gweithio a phwysigrwydd cyfathrebu’n rhyngbroffesiynol wrth reoli cleifion.

## PROFIADAU ERAILL

**Derbynnydd,** *Morris’ General Practice Surgery, Dyfnaint* Medi 2022 — Awst 2023

- Gweithio fel derbynnydd mewn meddygfa brysur a chanolog am flwyddyn cyn dechrau'r radd bresennol.
- Ateb galwadau ffôn, datrys ymholiadau cleifion a sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth o safon yn gyson ac mewn sefyllfaoedd heriol weithiau.
- Helpu i gyflawni tasgau gweinyddol, gan gynnwys ffeilio, cynnal cofnodion cleifion, a diweddaru gwybodaeth yn y system rheoli practis yn unol â GDPR.

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

**Myfyriwr Mentora,** *Prifysgol Caerdydd* Mehefin 2024 - presennol

- Rhoi arweiniad a chymorth i fyfyrwyr optometreg yn eu blwyddyn gyntaf, gan eu helpu i ddelio â heriau academaidd, datblygu sgiliau clinigol, a bywyd prifysgol.
- Trefnu ac arwain sesiynau astudio, gan gynnig cymorth academaidd a helpu mentoreion i wella eu dealltwriaeth a'u perfformiad.
- Wedi cael adborth cadarnhaol gan fentoreion am fod yn berson sy’n hawdd sgwrsio â nhw, yn ddibynadwy, ac yn gefnogol wrth ymdrin â materion academaidd a phersonol.

*Geirdaon ar gael ar gais*